FLINTSHIRE **PUBLIC SERVICES** BOARD
BWRDD **GWASANAETHAU CYHOEDDUS** SIR Y FFLINT

# FFRAMWAITH YSBRYDOLI GWYTNWCH CYMUNEDOL

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint


### Crynodeb

Mae’r ddogfen hon yn darparu cynllun trosfwaol o sut mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir y Fflint yn bwriadu Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol

## Crynodeb Gweithredol

Sefydlwyd Gweithgor Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2016 ac mae felly'n gymharol newydd. Ei flaenoriaeth gychwynnol oedd datblygu fframwaith clir ar gyfer sut y gall gwaith Gwytnwch Cymunedol yn Sir y Fflint gael ei arwain a'i gydlynu.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod nad oes modd rheoli gwaith yn y gymuned, yn hytrach mae'n rhaid ei gyd-ddylunio â chymunedau a phartneriaid ac mae'n rhaid iddo ddatblygu ac addasu yn seiliedig ar ddysg a chanlyniadau. Yn yr hinsawdd bresennol, mae hwn nid yn unig yn ddull hanfodol i ymgysylltu a grymuso cymunedau i ddatrys y problemau y maent yn wynebu, mae hefyd yn hanfodol os yw'r gwaith am fod yn gynaliadwy a'r galw am wasanaethau cyhoeddus am gael ei leihau.

Felly, mae'r grŵp wedi mabwysiadu dull deublyg. Yn gyntaf oll, datblygu dau ymyriad, un ar sail ardal (yn Holway, Treffynnon) ac un Gwasanaeth Cyhoeddus neu ar sail thema (Symud Sir y Fflint). Nod yr ymyriadau hyn yw datblygu ased cymunedol a dull galluogol gan adeiladu ar yr asedau ffisegol a phobl, sef gwir gryfderau cymunedau lleol.

Bydd hyn yn cael ei ategu gan ddull sy'n gweithio gydag ymyriadau cymunedol a Gwasanaeth Cyhoeddus eraill sydd â'r potensial i ddatblygu gwydnwch cymunedol. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys ffordd o weithio gyda saith egwyddor arweiniol, ac os yw'r egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso, bydd yn cefnogi datblygiad gwydnwch cymunedol. Nod y grŵp yw datblygu rhwydwaith neu fudiad rhithiol sy'n rhannu'r egwyddorion hyn, canlyniadau'r gwaith sy'n ymddangos mewn cymunedau, a dysgu am yr hyn sy'n gweithio a sut i gyflawni buddion gwirioneddol a chynaliadwy.

Erbyn diwedd cyfnod o dair blynedd, nod y fframwaith cychwynnol yw datblygu dull effeithiol o weithio'n gymunedol yn seiliedig asedau yn Sir y Fflint a rhannu'r dull hwnnw â phartneriaid Gwasanaeth Cyhoeddus. Drwy gymhwyso egwyddorion, cyfarpar a rennir a dysg gyffredin bydd gennym well dealltwriaeth o edrychiad cymunedau gwydn a sut rydym ni, fel partneriaid Sector Cyhoeddus, yn galluogi eu datblygiad.

***Lyndsey Rawlinson***
***Cadeirydd Gweithgor BGC Sir y Fflint ar Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol***
***Gorffennaf 2017***

First Draft


## Cefndir

**Beth yw Gwytnwch Cymunedol a Pham fod hyn yn Flaenoriaeth i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus?**

Mae gan leoedd effeithiol, llwyddiannus a chryf y gallu i ddatrys eu problemau eu hunain a gwella wedi problemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol e.e. Llifogydd. Mae lefelau uchel o wytnwch yn galluogi cymuned i ffynnu a llwyddo ac yn galluogi'r unigolion o fewn y gymuned honno i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi lleihad mewn galw am wasanaethau cyhoeddus gan fod unigolion a chymunedau wedi'u grymuso i wneud eu penderfyniadau eu hunain a siapio eu dyfodol.

Mae Cymunedau Gwydn yn cael cefnogaeth gan bob sector i ddatrys problemau, ac oherwydd hyn mae ganddynt gysylltiadau da ac maent yn gallu gwneud penderfyniadau. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwarae rolau hwyluso a broceriaeth pwysig, sy'n cysylltu ystod eang o asedau ac adnoddau.

**Diagram – Cymunedau Gwydn sy'n cael Cefnogaeth gan bob Sector**




First Draft

**Gwaith yn Seiliedig ar Ardal - Holway yn Nhreffynnon**

Mae Holway yng Ngorllewin Treffynnon yn ardal yn Sir y Fflint y mae Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ôl tystiolaeth a gwybodaeth ystadegol, wedi'i thargedu am nifer o flynyddoedd gydag ymyriadau gwasanaeth penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r ymyriadau hyn wedi gwneud gwahaniaeth cynaliadwy i'r problemau a'r heriau y mae'r gymuned hon a'i thrigolion yn wynebu.

Bydd y gwaith yn Holway yn defnyddio dull yn seiliedig ar asedau, yn adeiladu ar gryfderau'r gymuned, y bobl a'r adnoddau, a chyd- ddylunio ymyriadau priodol gyda'r gymuned. Mae gwaith cychwynnol ymysg Partneriaid Sector Preifat a gyda'r gymuned wedi dod o hyd i nifer o asedau y gellir adeiladu arnynt, gan gynnwys:

- Y Ganolfan Gymunedol – mae trafodaethau wedi dechrau o ran trosglwyddo ased y cyfleuster hwn i'r gymuned leol;
- Datblygu rhwydwaith o arweinwyr cymunedol – a allai ffurfio sefydliad cymdeithasol gyda'r sgiliau i reoli cyfleuster cymunedol ac arwain mentrau lleol;
- Y Tŷ Prosiect – tŷ yn y gymuned sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint y gellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau cymunedol allweddol yn seiliedig ar ardal;
- Y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – wedi'i leoli i'r gogledd o'r gymuned, mae'r safle hwn yn cynnwys fflora a ffawna o bwysigrwydd cenedlaethol;
- Y Rhwydwaith o Lwybrau Cerdded – mae'r rhain yn arwain at y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, canol y dref, y ganolfan hamdden, Mynydd Helygain, Dyffryn Maes Glas a'r arfordir ac os defnyddir y llwybrau yn fwy aml gallai hyn annog y gymuned i 'symud'.

Yn yr Haf 2017, cynhelir gwaith i gyd- ddylunio, gyda'r gymuned, y potensial ar gyfer trosglwyddo ased cymunedol y ganolfan gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r rhestr asedau cychwynnol uchod, ac yna gweithio gyda'r gymuned gyfan i ganfod a blaenoriaethu'r asedau a all gael y budd mwyaf sylweddol. O safbwynt cymunedol, mae gallu newid y farn am Holoway, o le sy'n wynebu llawer o broblemau, i le y mae gan bobl falchder mewn ystod o asedau, yn allweddol.

First Draft

## Gwaith y Seiliedig ar Thema – Symud Sir y Fflint

Mae hwn yn gam gweithredu cydweithredol, wedi'i gydlynu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddatblygu cyfleoedd ac amgylcheddau sy'n galluogi symud mwy a llai o ymddygiad llonydd. Gall hyn gynnwys:

- Chwaraeon;
- Gweithgareddau Awyr Agored;
- Gweithgareddau Hamdden;
- Gweithgareddau Stepen Drws;
- Gweithgareddau Cymunedol;
- Teithio Llesol.

Mae ymchwil yn dangos y gall symud mwy: wella iechyd meddwl, lleihau'r risg o glefyd y galon; lleihau lefelau o unigrwydd ac arwahanrwydd; gwella gwytnwch a chydlyniant cymunedol; lleihau costau tanwydd; lleihau costau iechyd a gofal cymdeithasol; lleihau olion traed carbon.

Mae pum maes ar thema ar gyfer cydweithio:

- Mynediad i fannau awyr agored / amgylcheddau naturiol
- Gweithle
- Ymagwedd Ysgol Gyfan
- Cymunedau
- Iechyd

Bydd Symud Sir y Fflint yn addasu a gweithredu'r canfyddiadau o ''ffrwd waith mynediad i fannau awyr agored/ amgylchedd naturiol", o fewn y gwaith yn Holway yn Nhreffynnon. Bydd y mathau o weithgareddau yn cynnwys:

- Datblygu amgylcheddau ar stepen drws, sy'n cefnogi cerdded, loncian a beicio ac ati;
- Cysylltu cymunedau gan ddefnyddio mannau gwyrdd;
- Cysylltu cymunedau i'r amgylcheddau naturiol ehangach;
- Datblygu llwybrau teithio llesol;
- Hyrwyddo'r filltir ddyddiol, ras y parc a gerddi / rhandiroedd cymunedol;
- Datblygu hyder unigolion wrth gael mynediad at fannau agored;
- Hyrwyddo buddion a hygyrchedd mannau awyr agored ar y stepen drws a'r amgylcheddau naturiol ehangach.

First Draft

## Ffyrdd o Weithio

Pwrpas y ddogfen hon yw annog yr holl bartïon, a fydd yn gysylltiedig â dyluniad a darpariaeth y gwaith allweddol yn y cymunedau, i fabwysiadu'r un ffyrdd allweddol o weithio a fydd yn galluogi cymunedau i fod yn fwy gwydn. (gweler atodiad A am restr o brosiectau).

*i.* *Gweledigaeth Gyson – bydd gan brosiectau weledigaeth wedi'i diffinio'n glir, sy'n ddealladwy i bawb sy'n gysylltiedig, sydd, er ei fod yn uchelgeisiol, yn gyraeddadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r Prosiect.*

*ii.* *Canlyniadau – bydd canlyniadau prosiect yn creu* gwelliant *mesuradwy i wytnwch cymuned yn un neu fwy o'r meysydd canlynol:*

a. Amgylcheddol
b. Iechyd
c. Economaidd
d. Cymdeithasol a Diwylliannol

*iii.* *Perchnogaeth Leol o Fentrau – bydd prosiectau yn seiliedig ar ddull sy'n hyrwyddo cydweithrediad gyda chymunedau (grwpiau ac unigolion) a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan sicrhau bod ganddynt rôl ganolog wrth ddylunio a darparu Prosiectau.*

*iv.* *Defnydd Effeithiol o'r Adnoddau sydd Ar Gael – bydd prosiectau yn defnyddio gwybodaeth, darpariaeth ac arbenigedd presennol er mwyn osgoi* dyblygiad *ymdrech, rhannu adnoddau, gwaith ymchwil, arbenigedd, ac anelu i ddefnyddio asedau llawn cymunedau.*

*v.* *Defnyddio Dulliau Creadigol wrth Gyfathrebu – bydd prosiectau yn arloesol o ran y dulliau y maent yn eu defnyddio i gyfathrebu ac ymgysylltu gyda chymunedau lleol i sicrhau ymgysylltiadau sy'n fwy ystyrlon a dwys.*

*vi.* *Gwasanaethau Cynaliadwy - bydd prosiectau yn canolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n bwysig ac sydd eu hangen gan gymunedau, gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy dros amser.*

vii. *Cyfleoedd i Ddatblygu Sgiliau – bydd prosiectau, fel y bo'n briodol, yn anelu i ddatblygu* gwybodaeth a sgiliau *aelodau o'r gymuned leol wrth ddarparu mentrau.* Nid yn unig y bydd hyn yn weithgaredd ymgysylltu cadarnhaol gyda'r

First Draft

gymuned leol, bydd hefyd yn sicrhau bod gan y mentrau gefnogwyr lleol sy'n berchen ar bob menter ac yn eu cefnogi i'w gyrru ymlaen.

**Sut Olwg sydd ar Lwyddiant a Phryd?**

Mae pedwar mesur llwyddiant allweddol a fydd yn cael eu defnyddio i werthuso llwyddiant y gwaith hwn.

1. Mae datblygu dull effeithiol yn seiliedig ar asedau cymunedol i waith ardal yn golygu, drwy adeiladu ar asedau lleol presennol, pobl ac adnoddau, y gellir cynnal gwytnwch cynyddol mewn cymunedau. Cyflawnir hyn drwy'r gwaith yn Holway ac yna cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i waith arall yn seiliedig ar ardal.

2. Arddangos y gall darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r ffyrdd o weithio i Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol ac o ganlyniad lleihau'r galw mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyflawnir hyn drwy'r gwaith ar Symud Sir y Fflint ac yna cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i brosiectau eraill dan arweiniad Gwasanaeth Cyhoeddus.

3. Dysgu ar y cyd ar draws ystod o brosiectau sydd â'r potensial i Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol. Cyflawnir hyn drwy sefydlu mudiad rhith o bobl ar draws holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, asiantaethau eraill a chymunedau, a fydd yn gweithio ar ddatblygu'r fframwaith hwn a rhannu'r arfer orau.

4. Gwneud y Gorau o Ddarparu Buddion Cymunedol. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu Strategaeth Buddion Cymuned ar draws bartneriaid y'n cysylltu ag allbynnau Amgylcheddol, Iechyd, Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, sy'n cefnogi lleihad mewn galw am wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r amserlen ar gyfer datblygu a darparu'r fframwaith hwn dros gyfnod o 3 blynedd, fel a ganlyn:

- Datblygu Fframwaith ac Ymyriadau – dechrau 2017
- Gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf o Waith Cychwynnol y erbyn y 4 mesur llwyddiant allweddol – Haf 2018
- Rhannu'r Gwersi Cychwynnol a Ddysgwyd – Hydref 2018
- Gwerthuso a Rhannu'r Dulliau a'r Offer a Ddatblygwyd a'r Buddion Cymunedol a ddarparwyd – Hydref 2019

First Draft

- Gwerthusiad Trydydd Blwyddyn o'r effaith y mae'r gwaith Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol wedi'i gael ar Arfer Gwasanaeth Cyhoeddus yn Sir y Fflint – Hydref 2020

**Atodiad A – Cyfeiriadur o Brosiectau yn Gysylltiedig â Chymunedau Gwydn Sir y Fflint (Gorffennaf 2017)**

Mae hwn yn gyfeiriadur cyfredol wedi'i anelu at gasglu gwybodaeth sylfaenol am fentrau o fewn Sir y Fflint, sy'n berthnasol i waith y Gweithgor Ysbrydoli Gwytnwch Cymunedol.

| **Menter** | **Trosolwg** | **Manylion Cyswllt** |
|---|---|---|
| ***Cyfeiriadur Cymunedol*** | Rhestr gynhwysfawr o glybiau, cymdeithasau, grwpiau cymunedol a sefydliadau yn Sir y Fflint. Caiff y Cyfeiriadur ei ddiweddaru'n flynyddol.<br><br>http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx | Defnyddiwch ddolen y wefan |
| ***Tŷ Cymunedol, Holway*** | Mae Liam Williams o'r Adran Dai yn arwain ail-agoriad y tŷ. Mae bellach wedi ail-agor. | Dawn Kent CSFf |
| ***Fforwm Menter Gymdeithasol*** | Archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygiad Menter Gymdeithasol o fewn ac o amgylch Sir y Fflint. | Mike Dodd CSFf |
| ***Fflint 2020*** | Dull amlasiantaeth i wella bywydau preswylwyr Y Fflint gan gynnwys gwaith ar weithgarwch corfforol a bwyta'n iach. | Clare Budden CSFf |
| ***Lleoliadau Gwirfoddoli a Gefnogir*** | Cyfleoedd i unigolion ag anghenion iechyd meddwl / anawsterau dysgu gael mynediad at | Ann Woods Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint |

First Draft

| | | |
|---|---|---|
| | sesiynau blasu ar gyfer gwirfoddoli a chymwysterau achrededig. | |
| ***Cefnogaeth Teuluoedd Yn Gyntaf*** | Ystod o fentrau yn canolbwyntio ar y teulu. | Dave Chisnall CSFf |
| ***Pwynt Mynediad Sengl*** | Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn cyflogi Cydlynydd Trydydd Sector, mae'r cydlynydd wedi'i leoli ym Mhreswylfa ac yn gweithio gyda Thîm Cyswllt Cyntaf CSFf i ymateb i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol preswylwyr Sir y Fflint, gan helpu i ganfod datrysiadau yn y gymuned a lleihau'r straen ar wasanaethau statudol. | Kate Howard, GIG, Preswylfa |
| ***Canolfan Ymyrraeth Gynnar*** | Dull amlasiantaeth tuag at ddarparu cymorth ataliol i deuluoedd / lliniaru'r effaith o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. | Dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru |
| ***Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol*** | Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn cysylltu â dros 1200 o grwpiau Trydydd Sector sy'n gweithredu ar draws y wlad – gallwn gael mynediad at fanylion sefydliadau perthnasol, gwahodd sefydliadau i ymateb i gyfathrebu a cheisiadau. | Karen Peters Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint |
| ***Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol*** | Ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol, mae BIPBC yn ariannu'r swyddi hyn i wneud y gorau o ymgysylltiad rhwng gwasanaethau a'r defnyddwyr gwasanaethau – gallai gefnogi peth gwaith ymgysylltu cymunedol. | Fran Hughes/Chris Roberts Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint |
| ***Partneriaeth Trechu Tlodi Sir y Fflint*** | Cyfarfod chwarterol swyddogion allweddol o Gyngor Sir y Fflint a gwasanaethau allanol sydd â'r dasg o ddatblygu gweithgareddau yn strategol o fewn Sir y Fflint i atal/ trechu tlodi. | Karen Armstrong CSFf |
| ***Rhwydwaith Ymgynghoryd d Sir y Fflint*** | Cyfarfod chwarterol staff / gwirfoddolwyr darparwyr cefnogaeth/ cyngor / gwybodaeth sy'n gweithredu o fewn Sir y Fflint. Gallai darparwyr gynnig cefnogaeth gadarnhaol i fentrau yn y gymuned sydd wedi'u hanelu at gynyddu ffyniant ac ati. | Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint |

First Draft

| | | |
|---|---|---|
| ***Rhagnodi Cymdeithasol*** | Gweithio i ddatblygu rhwydwaith o bobl a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Meddygon Teulu a fydd yn galluogi rhagnodi gweithgareddau cymdeithasol neu ymyriadau yn hytrach na phresgripsiwn meddygol. | Nina Ruddle, Prifysgol Glyndŵr<br>Anne Woods, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint |
| ***Strategaeth Budd Cymunedol*** | Strategaeth sy'n datblygu i wneud y gorau o ddarparu Buddion Cymunedol yng Nghyngor Sir y Fflint. | Steve Agger, Ian Bancroft CSFf |

First Draft

## Atodiad B – Rhestr sy'n Datblygu o Fuddion Cymunedol Cyngor Sir y Fflint (Gorffennaf 2017)

### Economaidd

(i) Recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu:

- Darparu cyfleoedd prentisiaeth a rennir gan ddefnyddio ein Hacademi Prentisiaeth;
- Creu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer unigolion di-waith o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Sir y Fflint;
- Darparu lleoliadau gwaith a chyfleoedd hyfforddi i unigolion lleol di-waith, i'w helpu i gael profiad gwaith i wella eu siawns am swydd.
- Darparu profiad gwaith i fyfyrwyr i'w helpu i wneud penderfyniad am eu gyrfaoedd.

(ii) Datblygu cadwyn gyflenwi leol, gan gynnwys:

- caffael nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau yn Sir y Fflint wrth gyflawni'r contract;
- Cymhwyso amserlen dalu 10 diwrnod gydag is-gontractwyr.

(iii) Cyfraniadau ariannol gwirfoddol i'w cyfuno'n ganolog i'w dyrannu i'r [Pentref Sgiliau]. Gall hyn fod ar ffurf cyfraniad ariannol neu adnodd. Mae'r [Pentref Sgiliau] yn adnodd rhith i gefnogi hyfforddiant pobl leol mewn crefftau adeiladu trwy ddarparu profiad gwaith ar y safle, cael mynediad a CSCS a hyfforddiant iechyd a diogelwch.

### Amgylcheddol, Iechyd a Chymdeithasol

(iv) Gweithio gydag ysgolion a cholegau i gyfrannu at eu cwricwlwm a helpu i hyrwyddo cymdeithas gynhwysol yn gymdeithasol;

(v) Lle bo'n briodol, gellir gwneud cyfraniadau bychain (hyd at £1,000) yn canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys adnoddau gwirioneddol megis amser staff i ddarparu cymorth / cefnogaeth i grwpiau cymunedol lleol. Byddai hyn yn cael ei weinyddu drwy'r Tîm Buddion Cymunedol i sicrhau defnydd priodol.

(vi) Darparu swm ariannol i gyflawni'r blaenoriaethau strategol fel y nodwyd gan Gyngor Sir y Fflint, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Ansawdd tai a thechnolegau adnewyddadwy fel rhan o unrhyw ddatblygiad adeiladu newydd;
- Mesurau ynni tai a fydd yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd;
- Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac ymwybyddiaeth amgylcheddol gyda thenantiaid;
- Cyflawni mentrau amgylcheddol gan gynnwys

  - cynhyrchu ynni micro;

  - llai o wastraff i safleoedd tirlenwi;

  - ailgylchu deunyddiau cymwys;

  - llai o ddefnydd dŵr;

  - rheoli milltiredd busnes.

(vii) Lleihad mewn galw am Wasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diogelwch Cymunedol

- Nifer y bobl a gefnogir i fyw yn annibynnol
- Lleihad o ran derbyniadau parhaol i ofal preswyl neu ofal nyrsio
- Lleihad mewn derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi
- Lleihad mewn ymddygiad gwrth – gymdeithasol a throsedd

(viii) Effaith Gwirfoddolwyr

First Draft

- Nifer y gwirfoddolwyr newydd
- Nifer y gwirfoddolwyr gyda grwpiau cymunedol
- Nifer y gwirfoddolwyr ifanc

(ix) Effaith Busnesau Cymunedol

- Nifer y busnesau cymunedol newydd a sefydlwyd
- Nifer y grwpiau a gyfansoddwyd sy'n datblygu i fusnesau cymunedol
- Nifer yr asedau cymunedol a gynhaliwyd

First Draft